YSGOL STANWELL SCHOOL
Dysgu i Ragori

**YSGOL STANWELL**
**HEOL ARCHER, PENARTH, CF64 2XL**

**HYSBYSIAD STATUDOL I NEWID I GATEGOREIDDIO YSGOL STANWELL O YSGOL SEFYDLIEDIG I YSGOL A GYNHELIR YN Y GYMUNED O FIS MEDI 2024.**

**RHODDIR HYSBYSIAD** yn unol ag adrannau 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, bod y Corff Llywodraethu, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol yn ôl y gofyn, yn cynnig gwneud addasiad a reoleiddir i Ysgol Stanwell drwy:

- Newid i gategoreiddio'r ysgol o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned o fis Medi 2024.

Mae'r ysgol yn un cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Cynhaliodd y Corff Llywodraethu ymgynghoriad cyn penderfynu ar gyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan yr ysgol a Chyngor Bro Morgannwg yma:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Changing-Stanwell-School-from-Foundation-School-to-Community-Maintained-School.aspx

Croeso i Ysgol Stanwell School

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 2 Medi 2024.

Bydd y cynnig yn arwain at newid categori o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned gan Gyngor Bro Morgannwg a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw. Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol yn aros fel 324 lle ar gyfer Medi 2024 gyda chapasiti ysgol o 2,122 o leoedd. Nid yw'r trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion). Ym mis Rhagfyr 2024, roedd 1946 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.

Mae trefniadau Teithio Dysgwyr Cymru Gyfan [1]yn rhoi cymhwysedd i drafnidiaeth ysgol os yw disgyblion yn byw mwy na phellter cerdded i'w hysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded fel dwy filltir neu fwy i oedran cynradd a thair milltir neu fwy i oedran uwchradd, fel y mesurir gan y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael. Mae Bro Morgannwg yn cynnig trafnidiaeth yn unol â'r uchod. Ni effeithir ar drefniadau, cymhwysedd na hygyrchedd trafnidiaeth ysgol gan y cynnig hwn.


Yn unol ag adran 49 'y Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 niwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion,, hynnyw yw erbyn dydd Mawrth 6 Chwefror 2024.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr T Rogers, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Stanwell

---

[1] Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Teithio gan ddysgwyr: darpariaeth statudol a chanllawiau gweithredol Mehefin 2014

Heol Archer, Penarth, CF64 2XL neu e-bost (school@stanwell.org)
Llofnod:



Mr T Rogers, Cadeirydd y Llywodraethwyr
9 Ionawr 2024

**NODYN ESBONIADOL – NID YW HYN YN FFURFIO RHAN O'R HYSBYSIAD STATUDOL**

Gwneir y cynnig o dan adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 y cyfeirir ato fel Addasiadau a Reoleiddir. Mae'r Corff Llywodraethu yn bwriadu gwneud y newidiadau hyn o fis Medi 2024.

Y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o fis Medi 2024 y Cyngor fydd awdurdod derbyn yr ysgol.